



28. PLANNU NORMAN (Stori o Guinea Bissau)

Yr oedd gan drigolion ynnysoedd Guinea Bissau broblem enfawr. Dros y blynyddoedd diwethaf bu'r cnwd reis yn wael. Diffyg glaw oedd y rheswm. Bob tro y deuai'n gynhaeaf, hen blanhigion reis tila oedd i'w cynaeafu ac nid oedd golwg eto eleni am gnwd euraidd a thoreithiog.

Ond roedd Norman, cenhadwr a ddaeth i fyw i'r ynys, yn meddwl fod ganddo ateb i'r broblem. Bu'n astudio amaethyddiaeth yn y coleg, ac wedi llawer o arbrofion gofalus darganfu fath o reis a allai dyfu'n dda hyd yn oed heb lawer o law. Ond roedd anhawster arall. Credai'r ynyswyr y byddai newid eu ffordd draddodiadol o ffermio yn gwylltio ysbryd y duwiau. Yr oedd newid yn beryglus – neu dyna a ddywedai'r gwŷr hysbys beth bynnag. Ni fyddent byth yn cymeradwyo unrhyw un a wnâi bethau'n wahanol. Felly, ac yntau wedi canfod reis a dyfai heb lawer o ddŵr sut goblyn y medrai berswadio'r trigolion i'w blannu?

Roedd wedi bod yn Guinea Bissau'n ddigon hir bellach i wybod mai gwastraff amser fyddai rhedeg o gwmpas yn rhannu pcedi hadau ymhlith pawb. Felly, i ddechrau, y cyfan a wnaeth oedd sibrwd awgrym cynnil yng nghlust ffermwr lleol o'r enw Domingos Tubento.

'Efallai fy mod wedi darganfod had reis sy'n tyfu gyda llai o law,' meddai wrth Domingos un dydd. 'Er ei bod hi'n gynnar i ddarogan dim, mae'n ymddangos yn addawol iawn.

Ni ddywedodd Domingos ddim. Un tawel ydoedd ar y gorau. Ond roedd yn wŷr oedd yn fodlon sefyll yn erbyn y gwŷr hysbys. Flynyddoedd yn ôl yr oedd wedi llosgi ei ddelwau a mynd yn erbyn traddodiad trwy ddod yn un o'r Cristnogion cyntaf yn Guinea Bissau. Gwyddai Norman fod yna gymeriad cryf yn ymochel y tu draw i'r wyneb addfwyn.

Aeth ychydig fisoedd heibio cyn i'r cenhadwr ymweld â'r ffermwr eto. Y tro hwn daeth â phe cyn bychan o'r had gydag ef. 'Dyma fo'r reis y bŷm yn dweud wrthyf amdano,' meddai. 'Pam na wnei di ei blannu yng nghornel y cae acw i ti gael gweld sut dyfith o?'

Bu tawelwch am gyfnod wrth i Domingos ystyried y cyfan. Cymerodd y pecyn hadau a'i ysgwyd. Crebachodd ei wefusau a chnoi ei fwstâs. Yna, yn araf, amneidiodd â'i ben. 'Iawn,' meddai.

Y flwyddyn honno, unwaith eto, byr oedd y tymor gwlyb. Ledled yr ynys, unwaith eto, prin oedd y cnwd reis. Ond yr oedd un eithriad. Yng nghornel un cae ni allai pobl lai na rhyfeddu at y planhigion reis euraidd. Allwch chi ddyfalu pwy oedd perchennog y cae? Domingos Tubento. Ac wrth gwrs, gwyddai pawb beth oedd yn gyfrifol am hyn. Yr oeddent oll wedi gweld dyn gwyn yn ymweld â chartref Domingos. Clywsant oll am y pecyn hadau. Gwelsant oll yr had yn tyfu.

Y Mehefin canlynol heuodd Domingos gae cyfan â'r had newydd. Ym marn y pentrefwyr roedd hyn yn fentrus iawn. Ni fyddai ysbrydion y duwiau'n hoffi hyn. 'Ooo!' Yr oedd tafodau'n clebran a phob math o drychinebau'n cael eu darogan. Byddai cnydau Domingos yn sicr o fethu. Byddai'r duwiau'n ei daro â rhyw afiechyd erchyll. Ond ni ddigwyddodd dim o'r fath. Yn hytrach, cafodd Domingos gynhaeaf ardderchog.

Erbyn hyn yr oedd tair blynedd wedi pasio ers i Norman ddarganfod y math newydd o reis.

Y Tachwedd hwnnw, pan ymwelodd y cenhadwr â'r pentref, canfu fod Domingos allan yn y caeau yn brysur yn trafod gyda'r ffermwyr lleol. Er mawr syndod iddo clywai ei enw ei hun yn cael ei

yngan bob munud.

'Norman hyn ... Norman llall ...' Yn anffodus, nid oedd Norman yn ddigon cyfarwydd â'r iaith frodorol i fedru deall yr hyn a ddywedent. Tybed a oedd mewn trybini? A oedd wedi pechu yn erbyn rhywun?

'Beth oeddech chi'n drafod nawr?' holodd Domingos.

Llygadodd y ffermwr ef. 'Maen nhw am blannu Norman.'

Beth! Am ennyd erchyll dychmygodd ei hun yn cael ei gladdu mewn mwd gludiog yn y gors.

Ond nid oedd dim i boeni amdano. Yr hyn fu'r ffermwyr yn ei drafod mewn gwirionedd oedd y math newydd o reis. Roedd y reis newydd wedi gwneud argraff fawr arnynt a rhaid oedd wrth enw newydd arno i'w wahaniaethu oddi wrth yr hen reis. Felly fe'i bedyddiwyd yn 'Norman'. Ac, i goroni'r cyfan, yr oeddent wedi dod i benderfyniad. Clod i Dduw! Y flwyddyn honno byddai pawb yn plannu Norman!

HYD: 4 munud

NEGES: Yn nameg yr heuwr, caiff gair Duw ei gymharu â'r had yn cael ei hau ar y tir. A ydym yn caniatáu i'r had hwnnw gael ei blannu yn ein bywydau?

DARLLEN: Luc 8: 4–8, 11–15.